| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **27 MAI 2021** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2021** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2021 hyd 31 Mawrth 2021.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2021:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 4 |
| Adroddiadau Grant | 1 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2021, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Diogelu | Corfforaethol | - | Uchel | Atodiad 1 |
| Risgiau gyda'r Gadwyn Gyflenwi | Corfforaethol | - | Digonol | Atodiad 2 |
| Trefniadau Gweithio o Gartref | Corfforaethol | - | Digonol | Atodiad 3 |
| Amgueddfa Lloyd George | Economi a Chymuned | Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau | Uchel | Atodiad 4 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

## 2.3 Archwiliad Grant Ôl-16

2.3.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu 'tystiolaeth o wariant priodol' o'r dyraniadau ar gyfer chweched dosbarth ac addysg barhaus i oedolion. Cyflwynwyd y dystysgrif cysylltiedig at Lywodraeth Cymru.

# 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 31 Mawrth 2021:

- Diogelwch Systemau TG *(Cyllid)*
- Cynllun STEM Gogledd *(Economi a Chymuned)*
- Ffordd Cartrefi Preifat *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Gorfodaeth Ffyrdd a Pharcio *(Amgylchedd)*

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2021 hyd at 31 Mawrth 2021, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

**TREFNIADAU DIOGELU**

**1. Cefndir**

1.1 Mae nifer o wasanaethau'r Cyngor ar reng flaen yr ymateb i'r pandemig COVID-19 gan ddarparu gwasanaethau hanfodol er yr heriau digynsail. Er gwaethaf yr heriau, rhaid i'r Cyngor barhau i wasanaethu a darparu gofal a chymorth sy'n ddiogel ac o ansawdd uchel yn ystod yr amser hwn.

1.2 Mae diogelu plant ac oedolion yn un o flaenoriaethau Cyngor Gwynedd. Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn y maes hwn, un o'r camau sydd yn cael ei weithredu yw sicrhau fod pob aelod o staff a recriwtiwyd yn cael eu gwirio trwy drefn y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar allu gwasanaethau gofal i gwrdd ag anghenion thrigolion bregus Gwynedd yn ystod y cyfnod dyrys hwn. Yn sgil absenoldebau staff mewnol a darparwyr allanol, apeliwyd am staff dros dro a gwirfoddolwyr i helpu i gynnal gwasanaethau gofal y Cyngor. Tra bod risg gall y pwysau ar wasanaethau gofal godi eto, bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau diogelu addas mewn lle, fel bod y staff dros dro a'r gwirfoddolwyr â recriwtiwyd, wedi derbyn gwiriadau priodol DBS a hyfforddiant perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion, megis DBS a cofnodion hyfforddiant sampl o'r staff a'r gwirfoddolwyr yma.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gwelwyd bod rheolaethau a threfniadau da mewn lle ar gyfer sicrhau bod y gwirfoddolwyr neu weithwyr cafodd eu recriwtio yn sgil Covid-19 i weithio gyda phlant ac oedolion bregus, gyda gwiriad troseddol priodol a chyfredol (DBS).

4.1.1 Eglurodd y Rheolwr Cefnogol mai'r adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, a Plant a Chefnogi Teuluoedd oedd yn casglu enwau er mwyn sefydlu bas data ac yn anfon ceisiadau DBS i'r Gwasanaeth Cefnogol i drefnu'r gwiriad. Bu i'r Gwasanaeth Cefnogol sefydlu trefn o wirio drwy Cyngor Powys gan fod y broses electronig yn llawer cynt na proses papur yn yr argyfwng.

4.1.2 Fe wiriwyd sampl o 10 o weithwyr/gwirfoddolwyr a gwelwyd eu bod wedi derbyn eu DBS yn amserol ar ôl cyflwyno eu cais. Yn y sampl a ddetholwyd, 34 diwrnod oedd yr amser hiraf a gymerodd i brosesu y cais, a gweddill y sampl wedi derbyn eu dadleniad o fewn mis o gychwyn yn eu swyddi. Roedd y swyddogion a oedd heb dderbyn eu dadleniad ar ôl cychwyn yn eu swydd yn parhau i fod ar gyfnod o oruchwyliaeth tan roedd y broses wedi ei gwblhau.

4.1.3 Eglurodd Arweinydd Trawsffurfio Iechyd a Gofal bod Tîm Swyddi COVID-19 wedi ei greu i gydlynu casglu gwybodaeth angenrheidiol ar gyfer dilyn y drefn DBS cywir.

4.1.4 Roedd y gweithwyr/gwirfoddolwyr a'r sawl oedd yn rhoi gwaith iddynt mewn cyswllt o ddydd i ddydd i wneud trefniadau goruchwylio, yn ogystal a thrafod unrhyw anghenion hyfforddiant a threfnu cyrsiau ar-lein.

4.1.5 Cafodd ei nodi yn Adroddiad i'r Cabinet Hydref 2020 bod Penaethiaid Adran o fewn y Cyngor yn adrodd fod yna nifer o wersi wedi eu dysgu yn ystod cyfnod Chwefror i Fehefin 2020, a'u bod wedi ymgorffori unrhyw wersi a ddysgwyd yn ystod y don gyntaf ar gyfer yr ail don neu pandemig arall.

Atodiad 2

**RISGIAU GYDA'R GADWYN GYFLENWI**

## 1. Cefndir

1.1 Yn ystod pandemig COVID-19 mae newidiadau sylweddol wedi bod i ba wasanaethau caiff eu cynnig mewn sawl sector. Gall hyn olygu bod problemau ariannol gan gyflenwyr neu gan lywodraethau lleol yn arwain at wasanaethau yn cael eu diddymu. Dylai fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor sicrhau bod y gwasanaethau angenrheidiol ar gael i drigolion Gwynedd a'u bod yn cael eu cyflenwi mewn ffordd deg.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli contractau prif gyflenwyr y Cyngor yn ystod y pandemig. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio rhestr o brif gyflenwyr y Cyngor a sicrhau bod asesiadau risg wedi cael eu cynnal a bod y Cyngor wedi ymateb/rheoli unrhyw risgiau newydd sydd wedi codi yn sgil COVID-19, gwirio sampl o gontractau sydd wedi terfynu neu newid amodau cyflenwi i sicrhau bod cymalau priodol mewn lle a ble yn berthnasol bod trefniadau monitro digonol wedi eu sefydlu, yn ogystal â gwirio bod addasiadau cyflenwi wedi cael eu datgan yn ffurfiol gan gynnwys trefniadau diogelu yn ystod y pandemig a bod y rhain yn briodol ac yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Derbyniwyd 3 diwygiad o adroddiad gan Ymgynghorwr Caffael (Cefnogi Busnes). 14/04/2020 oedd dyddiad y cyntaf, 01/06/2020 yr ail ac 11/11/2020 oedd dyddiad y trydydd. Maent yn nodi mai pwrpas yr adroddiadau yw amlinellu effaith all COVID-19 ei gael ar brif gategorïau o wariant Cyngor Gwynedd. Mae'r adroddiadau yn edrych ar y risg bydd:

- Ymdrechion i leihau lledaeniad COVID-19 yn dileu'r angen am wasanaethau yn y tymor byr ac o ganlyniad bydd darparwyr yn mynd i'r wal.
- Prinder staff a PPE yn amharu ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau statudol
- Costau rhai cynhyrchion a gwasanaethau yn cynyddu.

Mae'r adroddiadau yma yn effeithiol yn asesu'r risgiau i'r gadwyn gyflenwi yn ystod pandemig COVID-19. Maent yn adrodd ar lefel pryderon ariannol byrdymor, diffyg staff a diffyg cynnyrch ar gyfer prif gyflenwyr y Cyngor mewn sawl maes. Yn ogystal â hyn, mae gwybodaeth am werth gwariant y Cyngor fesul y meysydd hyn a'r camau all leihau'r risgiau perthnasol.

5.2 Yn ffodus i'r Cyngor a'i gyflenwyr, nid oes contractau wedi cael eu terfynu yn sgil COVID-19. Nododd y Rheolwr Caffael a'r Ymgynghorwr Caffael bod rhai cyflenwyr wedi cael eu talu canran is o'r contract pan nad oedd modd iddynt gyflenwi'r gwasanaeth yn ystod y cyfnodau clo cynnar er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor. Mae cyflenwyr hefyd wedi codi eu costau yn ystod y pandemig a cadarnhawyd bod tystiolaeth ddigonol wedi ei dderbyn yn yr achosion hyn fel nad oedd angen mynd yn ôl i dendr ar gyfer y gwasanaethau.

5.3 Mae contractau'r Cyngor yn cael eu diweddaru pan fyddant yn cyrraedd eu terfyn. Cytunodd y Rheolwr Caffael a'r Ymgynghorwr Caffael dylai ychwanegu pwynt i'r contractau pan cânt eu diweddaru i sicrhau bod yn ofynnol i gyflenwyr weithredu o fewn canllawiau iechyd a diogelwch Llywodraeth Cymru mewn perthynas â COVID-19.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Rheolwr Caffael a'r Ymgynghorwr Caffael wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cynnwys cymal mewn contractau pan cânt eu diweddaru i sicrhau bod cyflenwyr y Cyngor yn gweithredu o fewn canllawiau iechyd a diogelwch Llywodraeth Cymru mewn perthynas â COVID-19**

Atodiad 3

**TREFNIADAU GWEITHIO O GARTREF**

## 1. Cefndir

1.1 Ym Mawrth 2020, er mwyn lleihau lledaeniad feirws COVID-19, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfnod clo, gan ofyn, ble yn bosibl, fod busnesau yn trefnu i'w staff i weithio o gartref. Ers hynny, mae oddeutu 1,300 o aelodau staff Cyngor Gwynedd yn gweithio o gartref.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y Cyngor wedi darparu cyfarwyddiadau priodol a chefnogaeth ddigonol a bod trefniadau addas mewn lle fel bod staff yn medru gweithio o gartref yn effeithiol ac i gadw'r Cyngor yn weithredol dros gyfnod y pandemig. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau gweithio o gartref, canllawiau/polisiau, cyfarwyddiadau, hyfforddiant, cefnogaeth, trefniadau rheoli ac unrhyw ohebiaeth arall mae'r Cyngor wedi'u dosbarthu i'w staff, yn ogystal â gwirio beth yw trefniadau iechyd a diogelwch ynglŷn a gweithio o gartref a defnyddio offer a chyfarpar electronig.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DERBYNIOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 1 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd fod trefniadau mewn lle ar gyfer sicrhau fod staff yn gallu gweithio o gartref yn effeithiol, ond bod angen tynhau ar rai agweddau er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.

5.2 Mae nifer o aelodau staff y Cyngor yn parhau heb dderbyn polisïau craidd, megis Diogelu Data, Trais yn y Cartref a Diogelu Plant ac Oedolion. Allan o dros 7,000 o aelodau staff mae'r polisiau wedi eu derbyn gan 1,385 o aelodau staff yn unig, mae hyn yn llai na 20% o'r gweithlu.

5.3 Mae swyddfeydd Cae Penarlag a Ffordd y Cob yn parhau gyda bysellbad ar ddrysau'r adeiladau er mwyn ennill mynediad, sy'n cynyddu'r risg o ledaenu'r feirws. Cadarnhaodd y Rheolwr Cyfleusterau fod trefniadau eisoes wedi cychwyn ar gyfer sicrhau y byddai staff yn gallu defnyddio eu cardiau adnabod i ennill mynediad yn y dyfodol agos.

5.4 Mae'r uned Iechyd a Diogelwch yn parhau i dderbyn atgyfeiriadau gan aelodau staff sy'n ei chael yn anodd i weithio o gartref. Cadarnhawyd fod y rhan fwyaf o'r swyddogion hyn yn teimlo dan bwysau i fod yn gaeth i'w cyfrifiaduron er mwyn profi eu bod yn gweithio. Cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol fod canllawiau wedi eu cyflwyno i reolwyr ar gyfer arwain o bell ac eu bod yn cyfeirio at yr arfer da o sicrhau cyswllt cyson rhwng aelodau staff a rheolwyr, ond nad monitro unigolion wrth eu gwaith ydi pwrpas hynny ond yn hytrach sicrhau bod digon o gefnogaeth ar gael i unigolion o safbwynt gwaith ond hefyd o safbwynt cefnogaeth lles. Gwelwyd fod y canllawiau yn pwysleisio fod gwarchod lles staff yn hollbwysig gan gyfeirio at arferion da megis cymryd seibiannau aml yn ystod y dydd a pheidio fod yn gaeth i'r cyfrifiadur. Ychwanegodd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw achosion penodol sydd wedi cyfeirio at Wasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol.

5.5 Ar y cyfan gwelwyd fod llawer o wybodaeth a chymorth wedi ei gyflwyno ar gyfer cefnogi swyddogion sydd yn gweithio o gartref. Fodd bynnag, gan weld fod rhai aelodau staff yn parhau i'w gweld yn anodd i weithio o gartref, ymddengys nad yw pob rheolwr yn arwain o bell yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd gan Cefnogaeth Corfforaethol. Heb gofnod swyddogol yn cael ei gadw o'r atgyfeiriadau, nid yw'n bosib profi bod y mater yn eithriad ac felly dylai bod yr adran(au) perthnasol yn dilyn i fyny/cynnal ymchwiliadau pellach i wraidd y mater er mwyn ei ddatrys.

Atodiad 4

# AMGUEDDFA LLOYD GEORGE

## 1. Cefndir

1.1 Mae Amgueddfa Lloyd George a chartref ei blentyndod, Highgate, Llanystumdwy, yn olrhain bywyd cyn Brîf Weinidog y DU. Mae'r amgueddfa yn elusen cofrestredig a Chyngor Gwynedd yw'r ymddiriedolwr. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i roi'r gorau i redeg Amgueddfa Lloyd George o 1 Ebrill 2017, fe gyhoeddodd Canghellor Llywodraeth y DU y byddai'r bwlch ariannol blynyddol o £27,000 yn cael ei gyfarch gan Lywodraeth y DU am 3 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2020. Yng nghyfarfod o'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2019, penderfynwyd ar gyfer 2020/21 i gyfrannu £27,000 o Gronfa Drawsffurfio'r Cyngor er mwyn caniatáu mwy o amser i'r Ymddiriedolwyr ystyried modelau gorau ar gyfer y dyfodol. Oherwydd bod yr elusen wedi uchafu trothwy incwm o £25,000, rhaid cyflwyno cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr i'r Comisiwn Elusennau am 2019/20, gan gynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol o'r cyfrifon.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cwblhau adroddiad archwiliwr annibynnol o gyfrifon 2019/20 yr elusen, gan roi sicrwydd bod yr hyn a gyflwynir i'r Comisiwn Elusennau yn gywir. Gwnaethpwyd hyn drwy wirio sampl o drafodion, cysoni y cyfrifon gyda chyfriflyfr y Cyngor, gan sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol i'r amgueddfa. Yn ogystal, roedd yr archwiliad yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau fel ymddiriedolwr.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Darganfuwyd fod y cyfrifon ar gyfer 2019/20 yn briodol ac felly cwblhawyd adroddiad yr archwiliwr annibynnol er mwyn datgan hynny.

4.2 Yn dilyn cyfnod o gyllid 'pontio' gan Lywodraeth y DU rhwng 2017/18 a 2019/20 er mwyn rhoi cyfle i edrych ar y newidiadau all eu gwneud er mwyn i'r amgueddfa fod yn hyfyw i'r dyfodol, nid oedd datrysiad parhaol wedi ei gytuno arno. Cyflwynwyd cais llwyddiannus i'r Cabinet ar y 17/12/19 am gyllid pontio dros dro ar gyfer 2020/21 tra bod opsiynau a datrysiad parhaol yn cael eu cytuno arnynt.

Wrth gwrs, cafodd COVID-19 effaith sylweddol na ragwelwyd ar yr amgueddfa, ac ar y 12/01/21 gofynnwyd i Gabinet Cyngor Gwynedd i wneud cyfraniad un tro am gostau blwyddyn yr amgueddfa am 2021/22 er mwyn prynu rhagor o amser.

4.3 Mynegir yr adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd 17/12/19 bod "swyddogaeth ymddiriedolwr yn golygu fod gan y Cyngor, o weithredu trwy'r Cabinet, ddwy rôl ar wahân i'w cyflawni. Fel ymddiriedolwr, mae gan y Cyngor ddyletswyddau ynglŷn a rheoli yr elusen. Fodd bynnag mae hyn ar wahân i swyddogaeth y Cyngor fel Awdurdod Lleol." Gwneir ceisiadau am gyllid pontio ar ran yr elusen at Gyngor Gwynedd fel Awdurdod Lleol, a rhaid i'r Cabinet ystyried hyn yn ôl ei rôl arferol, cyn cynnal cyfarfod pellach fel ymddiriedolwr i ystyried unrhyw gamau fydd eu hangen mewn ymateb.

4.4 Mae risg gall y dyletswyddau yma wrthdaro, e.e. petai y Cyngor, fel Awdurdod Lleol, yn gwrthod dyrannu rhagor o arian i'r amgueddfa, ble gall goblygiadau cyfreithiol fod i'r Cyngor os yw'n gweithredu'n groes i'w rôl fel ymddiriedolwr yr elusen.

4.5 Gan y gofynnwyd i Gabinet Cyngor Gwynedd i wneud cyfraniad un tro am gostau blwyddyn yr amgueddfa am 2021/22, ac i'r Gwasanaeth Cyfreithiol adolygu trefniadau'r elusen er mwyn sicrhau bod materion yr ymddiriedolaeth yn hollol glir ac ar wahân i faterion y Cyngor, mae'r archwiliad o'r farn fod y Cyngor yn cymryd camau priodol er mwyn sicrhau bod ei ddyletswyddau yn cael eu cyflawni.